# Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i Bwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch

## Ar gyfer Llundain, Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru

© Hawlfraint y Goron

Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

# Rhan 1 – Pwyllgorau Ymgynghorol

## Cynnwys


**Rhagymadrodd** .... 3
**Rhan 1 – Pwyllgorau Ymgynghorol** .... 5
- **Statws** .... 5
- **Swyddogaethau** .... 5
- **Cworwm y Pwyllgor Ymgynghorol** .... 6
- **Is-bwyllgorau Ymgynghorol** .... 6
- **Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol** .... 6
- **Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol** .... 7
- **Aelodaeth Pwyllgorau Ymgynghorol** .... 9
- **Adleoliadau (trosglwyddiadau) i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol eraill** .... 11
- **Eithriadau i allu bod yn aelod** .... 11
- **Recriwtio aelodau i Bwyllgorau Ymgynghorol** .... 12
- **Y broses gwneud cais a dethol** .... 13
- **Aseswyr Penodiadau Cyhoeddus** .... 19
- **Cadw Cofnodion** .... 19
- **Hyfforddiant** .... 20
- **Ymddygiad a Chwynion** .... 20
- **Dwyn materion i sylw'r Ysgrifennydd** .... **Error! Bookmark not defined.**
- **Cofrestr buddiannau** .... 21
- **Treuliau** .... 21
- **Achosion Cyfreithiol** .... 21
- **Perthnasau Pwyllgorau Ymgynghorol â GLITEF, Cadeiryddion Meinciau a Chadeiryddion Panelau Teulu** .... 22

# Rhagymadrodd

Mae Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i Bwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch yn amlinellu rôl a swyddogaeth Pwyllgorau Ymgynghorol ynghyd â'r trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi ynadon.

Bydd y Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd i sicrhau bod ei arferion gweithredu yn parhau i fod yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n bum rhan:

- Rhan 1 – Pwyllgorau Ymgynghorol
- Rhan 2 – Meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth
- Rhan 3 – Y broses ddethol ar gyfer ynadon
- Rhan 4 – Cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi
- Rhan 5 – Materion yn codi ar ôl penodi

Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn a defnyddio'r deunyddiau sydd ar gael yn y pecyn offer Pwyllgor Ymgynghorol. Cydnabyddir na all y Cyfarwyddiadau ymdrin â phob amgylchiad a all godi yn ystod gwaith unrhyw Bwyllgor Ymgynghorol. Dylai Pwyllgorau ddefnyddio disgresiwn synhwyrol wrth ddelio â materion o'r fath, gan sicrhau nad ydynt yn gwyro oddi wrth ysbryd y Cyfarwyddiadau. Lle bo angen, dylent geisio cyfarwyddyd gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ynghylch unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chymhwyso'r Cyfarwyddiadau hyn i faterion penodol.

Yr Arglwydd Brif Ustus sy'n gyfrifol am benodi ynadon[1], ac mae wedi dirprwyo'r[2] pŵer hwn i'r Uwch Farnwr Llywyddol. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn dal cyfrifoldeb ar y cyd â'r Arglwydd Brif Ustus am faterion eraill sy'n ymwneud ag ynadon, gan gynnwys cyfrifoldeb disgyblu. Mae'r Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Farnwr Llywyddol yn ymddiried yn y Pwyllgorau Ymgynghorol a gan amlaf byddant yn gweithredu ar eu hargymhellion ac yn cefnogi eu penderfyniadau. Fodd bynnag, gall fod achlysuron pan fyddant yn anghytuno â phenderfyniad Pwyllgor ac yn ei wrthdroi. Pan wneir hynny, byddant yn rhoi eu rhesymau i'r Pwyllgor.

Mae gan Bwyllgorau Ymgynghorol rôl i'w chwarae mewn achosion disgyblu ac maent yn rhan o system lle mae cyfrifoldeb statudol am faterion disgyblu barnwrol yn cael ei rannu'n derfynol rhwng yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus.[3].

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd copïau caled o'r Cyfarwyddiadau hyn ar gael. Dylid gwneud unrhyw gais am gopïau caled neu fersiynau mewn fformat amgen fel Braille i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

---

[1] Deddf Trosedd a'r Llysoedd 2013
[2] Atodlen 13 Deddf Trosedd a'r Llysoedd 2013
[3] Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014: https://jcio.sharepoint.com/Rules%20and%20Regulations/Judicial_Conduct_Magistrates_Rules_2014.pdf?originalPath=aHR0cHM6Ly9qY2lvLnNoYXJlcG9pbnQuY29tLzpiOi9nL0VXdTZ3RDlQQUdaRnRfQ1dENDdac0ZNQjhXbGVTLUZiczVuOWhCSXl0TmJCTFE_cnRpbWU9NWthZ3NoVWcyVWc

# Rhan 1 – Pwyllgorau Ymgynghorol

## Statws

1.1 Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch yn gyrff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

1.2 Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penderfynu ar nifer y Pwyllgorau Ymgynghorol, eu trefniadaeth, strwythur, aelodaeth a'u harferion gweithredu.

1.3 Oni nodir fel arall, mae'r term "Pwyllgor Ymgynghorol" yn cyfeirio at Bwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio ac Ymddygiad.

## Swyddogaethau

1.4 Swyddogaethau Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio yw:

- recriwtio ac argymell i'r Uwch Farnwr Llywyddol (sy'n gweithredu ar ran yr Arglwydd Brif Ustus) ymgeiswyr ar gyfer eu penodi i'r ynadaeth (yn unol ag **Atodiad 1A**);
- recriwtio ac argymell i'r Arglwydd Ganghellor ymgeiswyr sy'n addas i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- ystyried ceisiadau i adolygu penderfyniadau ynghylch argymhellion i benodi;
- annog ceisiadau i'r ynadaeth a'r Pwyllgor Ymgynghorol gan unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli; ac
- ystyried a rhoi sylwadau am y data a gesglir gan Ysgrifennydd y Pwyllgor fel rhan o ymarferion adnoddau barnwrol.

1.5 Swyddogaethau Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad yw:

- sicrhau bod ynadon yn cyflawni eu rhwymedigaethau i eistedd a chwblhau hyfforddiant gofynnol a chynnal yr ymrwymiadau a roddwyd drwy lofnodi'r ffurflen Datganiad ac Ymgymeriad (**Atodiad 4C**);
- ymchwilio i honiadau o gamymddygiad gan ynadon a gwneud argymhellion i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014 a Rheolau Ynadon Heddwch 2016;
- ystyried penderfyniadau gan y Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu (FTAAAC) a'r Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Ynadon (JTAAAC) pan fydd ynad wedi methu â bodloni'r safon ofynnol;

- gwneud unrhyw argymhelliad ffurfiol ar gyfer diswyddo i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014 a Rheolau Ynadon Heddwch 2016;
- rheoli materion ar ôl penodi fel trosglwyddo o un Ardal Cyfiawnder Lleol i un arall, ailbenodi ac ailactifadu ac ystyried materion sy'n ymwneud ag eisteddiadau a cheisiadau cyfnod o absenoldeb a gyfeirir at y Pwyllgor Ymgynghorol gan Gadeiryddion Meinciau (yn unol â Rhan 5; a
- chynnal gorolwg strategol o lefelau eistedd a chyfnodau o absenoldeb i sicrhau eu bod yn ymwybodol o faterion a all effeithio ar niferoedd recriwtio yn y dyfodol.

## Cworwm y Pwyllgor Ymgynghorol

1.6 Pan na all y Pwyllgor Ymgynghorol llawn gyfarfod, bydd unrhyw benderfyniad i argymell penodiadau i'r ynadaeth yn gofyn am gworwm o'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn sy'n cynnwys y Cadeirydd a dim llai na chwe aelod, gyda thraean ohonynt yn aelodau nad ydynt yn ynadon.

## Is-bwyllgorau Ymgynghorol

1.7 Bydd is-bwyllgorau'n cynnwys panel o dri aelod (yn unol â'r adrannau ar banelau cyfweld yn Rhan 3 lle bo'n ymwneud ag is-bwyllgorau recriwtio) ac yn gweithredu ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.8 Ni ddylai is-bwyllgorau wyro oddi wrth unrhyw arweiniad neu gyfarwyddyd a roddir iddynt gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.9 Swyddogaethau is-bwyllgorau recriwtio yw gwneud penderfyniadau ynghylch a yw ymgeiswyr yn gymwys cyn y cyfweliad, cyfweld ymgeiswyr, a sgorio eu perfformiad yn gywir.

1.10 Bydd awdurdod unrhyw is-bwyllgor yn dod i ben ar ôl gwneud yr argymhelliad terfynol.

## Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol

### Penodi

1.11 Bydd gan bob Pwyllgor Ymgynghorol Ysgrifennydd. Penodir Ysgrifenyddion gan Dîm Penodiadau'r Swyddfa Farnwrol ar ran yr Arglwydd Ganghellor, ar argymhelliad Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEF. Bydd penodiadau newydd yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

1.12 Gall yr Ysgrifennydd benodi Dirprwy Ysgrifennydd, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol a Phennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol GLITEF; a gall hefyd ddirprwyo dyletswyddau i staff eraill GLITEF.

1.13 Dylid rhoi gwybod i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol am newidiadau i Ysgrifenyddion neu Ddirprwy Ysgrifenyddion.

### Dyletswyddau

1.14 Dyletswyddau’r Ysgrifennydd/Dirprwy Ysgrifennydd yw:

- sicrhau bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn gwbl gyfarwydd ac yn cydymffurfio â’r polisïau a’r prosesau a nodir yn y Cyfarwyddiadau hyn, ac yn cyflawni’r cyfrifoldebau a neilltuir iddynt gan y Cyfarwyddiadau hyn;
- rhoi cyngor i Bwyllgorau Ymgynghorol i’w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau – gall hyn gynnwys rhoi cyngor ar sicrhau ansawdd ffurflenni asesiad cyfweliad, neu roi cyngor ar faterion ymddygiad;
- rhoi gwybodaeth i’r Pwyllgor Ymgynghorol am nifer yr ynadon newydd sydd eu hangen yn unol â’r Protocol Rhagolygon Barnwrol;
- goruchwylio’r broses o recriwtio ynadon ac aelodau newydd i’r Pwyllgor Ymgynghorol;
- cydnabod ac arolygu’r broses o archwilio ceisiadau’n briodol;
- ceisio geirdaon;
- trefnu cyfweliadau a hysbysu ymgeiswyr;
- sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol fel bod ymgeiswyr ag anableddau yn gallu mynychu cyfweliad;
- diweddaru ymgeiswyr am gynnydd a chanlyniad eu cais;
- paratoi cyflwyniad ar benodiadau ac adroddiad blynyddol ar eisteddiadau ar gyfer y Pwyllgor Ymgynghorol; a
- chefnogi ymchwiliadau i ymddygiad ynadon, yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014.

1.15 Ni ddylai Ysgrifenyddion gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau ar ddethol ynadon unigol.

## Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol

### Arglwydd Raglawiaid

1.16 Fel arfer, bydd yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, yn gwahodd Arglwydd Raglawiaid i gadeirio Pwyllgorau Ymgynghorol.

1.17 Pan fydd ardal Pwyllgor Ymgynghorol yn cynnwys mwy nag un rhaglawiaeth, dylai’r Arglwydd Raglawiaid perthnasol gytuno pa un ohonynt fydd yn cadeirio’r Pwyllgor Ymgynghorol. Gellir rhannu’r rôl, cyn belled nad yw’r Pwyllgor Ymgynghorol yn gwrthwynebu hyn.

1.18 Gall Arglwydd Raglaw barhau i gadeirio Pwyllgor Ymgynghorol hyd nes y bydd yn rhoi’r gorau i’w swydd fel Arglwydd Raglaw.

**Penodi Cadeiryddion o blith aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

1.19 Bydd yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, yn penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol nad ydynt yn Arglwydd Raglawiaid ar argymhelliad aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol dan sylw.

1.20 Mater i bob Pwyllgor Ymgynghorol unigol yw penderfynu sut i gynnal eu proses enwebu. Os na cheir cytundeb, dylai'r Ysgrifennydd gynnal pleidlais gudd. Os na fydd canlyniad pendant ar ddiwedd y bleidlais gudd, bydd y Cadeirydd sy'n ymadael â'r rôl yn cael pleidlais ddyblyg.

1.21 Unwaith y byddant wedi'u penodi, bydd y Cadeirydd yn aros yn y swydd drwy gyfnod eu penodiad i'r Pwyllgor Ymgynghorol, oni bai eu bod yn dewis ymddiswyddo'n gynharach neu os bydd yr Arglwydd Ganghellor yn dod â'u penodiad i ben.

**Rôl y Cadeirydd**

1.22 Rôl y Cadeirydd yw:

- cynrychioli rôl y Pwyllgor Ymgynghorol i'r cyhoedd pan fo angen;
- sicrhau bod y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyfarfod ar adegau priodol a chadeirio'r cyfarfodydd;
- cynnal trafodaethau gydag aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol nad ydynt yn mynychu dau gyfarfod yn olynol, neu nad ydynt yn cyfrannu'n effeithiol i waith y Pwyllgor;
- cadeirio cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- sicrhau bod aelodau newydd yn cael eu hyfforddi'n briodol ar ôl eu penodi;
- darparu asesiad o berfformiad unigolyn sy'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol ar gais pan gânt eu hystyried ar gyfer penodiad i gorff cyhoeddus arall; ac
- ar gyfer Pwyllgorau Ymddygiad, cadeirio cyfarfodydd Aelodau Ymddygiad Enwebedig (NCMs) a darparu pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Ysgrifennydd ar faterion sy'n codi o dan Rhan 5 o'r Cyfarwyddiadau hyn a rheoli busnes cyffredinol y pwyllgor o dan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2023).

1.23 Gall y Cadeirydd enwebu Dirprwy Gadeirydd i gyflawni dyletswyddau ar eu rhan. Os nad yw'r Cadeirydd yn ynad, argymhellir penodi ynad i'r rôl Dirprwy Gadeirydd.

1.24 Gall y Cadeirydd, neu'r Dirprwy Gadeirydd a enwebwyd, gyda chytundeb y Pwyllgor Ymgynghorol, weithredu ar ran y Pwyllgor.

## Aelodaeth Pwyllgorau Ymgynghorol

1.25 Mae’r Arglwydd Ganghellor yn penodi aelodau i’r Pwyllgorau Ymgynghorol gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus. Mae’r Arglwydd Ganghellor wedi dirprwyo’r swyddogaeth hon i swyddogion yn Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

### Maint a chyfansoddiad

1.26 Dylai’r Ysgrifennydd a’r Cadeirydd gytuno ar unrhyw benderfyniad i amrywio maint Pwyllgor Ymgynghorol, a dylent hefyd geisio barn aelodau’r Pwyllgor lle bo hynny’n briodol.

### Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio

1.27 Eu nod yw cefnogi effeithiolrwydd cyfansoddiad panelau, ac argymhellir bod o leiaf traean o’r aelodau yn aelodau nad ydynt yn ynadon. Diben hyn yw galluogi, cyn belled ag y bo hynny’n ymarferol, i un aelod o bob panel cyfweld fod yn aelod nad yw’n ynad.

1.28 Rhaid i o leiaf traean o'r aelodau sy’n ynadon fod yn ynadon teulu. Diben hyn yw galluogi, cyn belled ag y bo hynny’n ymarferol, i un aelod o bob panel cyfweld gynnwys ynad teulu.

### Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad

1.29 Bydd aelodaeth y Pwyllgorau hyn yn cael eu ffurfio’n gyfan gwbl o blith Aelodau Ymddygiad Enwebedig (NCMs), a bydd pob aelod yn cael eu penodi ar sail teilyngdod yn dilyn y prosesau a ddisgrifir isod ac yn y polisi ategol.

1.30 Dylai Pwyllgorau geisio sicrhau bod un rhan o dair o’r aelodau’n bobl nad ydynt yn ynadon a bod yr aelodaeth hefyd yn cynnwys aelodau sydd yn ynadon teulu.

1.31 Dylai bod gan aelodau pob Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad y sgiliau a’r profiad perthnasol fel y dangosir drwy’r broses recriwtio a ddiffinnir yn yr Atodiadau i’r Rhan 1 hon o’r Cyfarwyddiadau hyn.[4]

### Rôl yr aelodau

1.32 Rôl aelodau’r Pwyllgor Ymgynghorol yw cyflawni a chydymffurfio â’r swyddogaethau a bennir gan y Cyfarwyddiadau hyn.

1.33 Disgwylir i aelodau:

- fynychu cyfarfodydd, oni bai bod ganddynt reswm dilys dros beidio â mynychu – os bydd aelod yn methu dau gyfarfod yn olynol heb reswm da (ym marn y Cadeirydd), disgwylir i’r aelod hwnnw neu honno ymddiswyddo o’r Pwyllgor Ymgynghorol;

[4] Gall yr Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus gytuno ar ddarpariaethau trosiannol ar gyfer ad-drefnu Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad ac os felly, bydd manylion y broses gwneud cais a recriwtio wedi’u cynnwys mewn dogfen bolisi atodol fel 1.40 isod

- mynychu unrhyw hyfforddiant gofynnol;
- cyfrannu'n effeithiol at waith y Pwyllgor Ymgynghorol;
- eistedd ar banel cyfweld o leiaf saith gwaith y flwyddyn (gall aelodau gael eu gofyn i wneud mwy yn unol â'r angen yn lleol). Disgwylir i aelodau flaenoriaethu cyfweliadau yn ardal eu Pwyllgor Ymgynghorol lleol. Pan fydd y cyfleoedd lleol yn gyfyngedig, disgwylir i aelodau gynnal cyfweliadau ar lefel genedlaethol;
- cadw at y polisïau a'r prosesau a nodir yn y Cyfarwyddiadau hyn;
- dilyn unrhyw ganllawiau ychwanegol a roddir gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus neu eu dirprwyon; a
- bod yn gyfarwydd â'r rheolau/canllawiau sy'n berthnasol i'w maes gwaith.

**Cyfnod yn y swydd**

1.34 Bydd aelodau Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu penodi am dymor o naw mlynedd neu hyd nes y byddant yn cyrraedd yr oed ymddeol statudol, os yw'n gynharach.

1.35 Nid oes angen i ymgeiswyr warantu y byddant yn gwasanaethu am y naw mlynedd llawn.

1.36 Gellir ymestyn penodiadau am flwyddyn ar y mwyaf, ond dim ond am resymau busnes eithriadol. Dylai Pwyllgorau gysylltu ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i drafod cais am estyniad. Rhaid hysbysu'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus am unrhyw estyniad sy'n ymestyn y cyfnod yn y swydd tu hwnt i ddeng mlynedd.

1.37 Ni chaiff cyn-aelodau sydd wedi cwblhau tymor o naw mlynedd eu hailbenodi.

1.38 Nid yw cyn-aelodau a wasanaethodd am lai na naw mlynedd wedi'u heithrio rhag gwasanaethu eto, ar yr amod nad yw cyfanswm y ddau dymor gyda'i gilydd yn fwy na naw mlynedd (ac eithrio estyniadau).

1.39 Ni ddylai cyfanswm y cyfnodau yn y swydd ar gyfer unrhyw aelodau sy'n symud rhwng Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio a Phwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad fod yn fwy na naw mlynedd, ac eithrio estyniadau.

1.40 Gall yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, neu ar gais yr aelod dan sylw, ddod â phenodiad aelod i ben.

*Darpariaethau Trosiannol ar gyfer ad-drefnu Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad*

1.41 Gall yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus gytuno ar ddarpariaethau trosiannol ar gyfer ad-drefnu Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad i gefnogi gweithrediad rôl Aelodau Ymddygiad Enwebedig (NCM).

## Adleoliadau (trosglwyddiadau) i Ardaloedd Cyfiawnder Lleol eraill

1.42 Os bydd aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yn dymuno trosglwyddo o'u Pwyllgor Ymgynghorol presennol i un arall, dylai'r aelod drafod y rhesymau dros wneud hyn â Chadeirydd eu Pwyllgor Ymgynghorol. Gan amlaf, bydd hyn oherwydd newid yn eu cyfeiriad cartref neu leoliad gwaith.

1.43 Dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol y mae'r aelod wedi'i benodi iddo gysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yr hoffai'r aelod drosglwyddo iddo i'w hysbysu am y cais i drosglwyddo.

1.44 Wrth benderfynu ar y trosglwyddiad, bydd angen i'r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried a oes ganddo unrhyw swyddi gwag a'r cydbwysedd rhwng aelodau sy'n ynadon ac aelodau nad ydynt yn ynadon. Dylid trafod a chytuno ar amseriad unrhyw drosglwyddiad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol presennol i sicrhau nad yw gwaith y Pwyllgor yn cael ei effeithio.

1.45 Unwaith y bydd y trefniadau wedi'u cytuno, dylid hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol am ddyddiad gweithredu'r trosglwyddiad fel y gellir diweddaru'r gronfa ddata berthnasol. Ni all aelodau Pwyllgor Ymgynghorol wasanaethu am fwy na naw mlynedd gyda'i gilydd, waeth faint o Bwyllgorau Ymgynghorol y maent wedi bod yn aelod ohonynt (oni bai bod yr eithriadau a nodir ym mhwyntiau 1.4 ac 1.36 yn berthnasol).

## Eithriadau i allu bod yn aelod

### Ynadon

1.46 Mae yna ychydig o ffactorau sy'n golygu y byddai ynad sy'n gwasanaethu yn anghymwys i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol neu is-bwyllgor.

1.47 Mae Cadeiryddion Meinciau a Dirprwy Gadeiryddion Meinciau wedi'u heithrio rhag bod yn aelodau o Bwyllgorau Ymgynghorol.

1.48 Ni ddylai aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad (NCMs) fod yn aelodau o Bwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Ynadon (JTAAAC) neu Bwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu (FTAAAC), gan y gallai fod gwrthdaro buddiannau pe bai'r Pwyllgorau hynny yn penderfynu riportio ynad i'r Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad am ddiffyg cymhwysedd. Lle bo yna angen busnes hanfodol, caiff aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio fod yn aelodau o JTAAAC neu FTAAAC.

1.49 Ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon, dylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried y ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn).

1.50 Rhaid i aelodau Pwyllgor Ymgynghorol sydd wedi'u mabwysiadu fel ymgeiswyr seneddol, neu wedi'u penodi'n asiant gwleidyddol amser llawn ar gyfer etholaeth sy'n croesi neu'n ffinio ag ardal y Pwyllgor Ymgynghorol, ymddiswyddo o'r Pwyllgor.

### Unigolion nad ydynt yn ynadon

1.51 Ni ddylid recriwtio cyn-ynadon fel aelodau nad ydynt yn ynadon o Bwyllgorau Ymgynghorol neu is-bwyllgorau, er mwyn cadw'r persbectif ffres a ddaw gan bobl sydd heb gefndir yn yr ynadaeth.

### Cadeiryddion Meinciau

1.52 Er na ddisgwylir i Gadeiryddion Meinciau/Dirprwy Gadeiryddion Meinciau gael eu gwahodd yn rheolaidd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, dylid eu gwahodd i o leiaf un cyfarfod cyffredinol y flwyddyn.

1.53 Os oes angen, dylid llunio agendâu'r cyfarfodydd fel y gall Cadeiryddion Meinciau/Dirprwy Gadeiryddion Meinciau adael pan ddaw'r Pwyllgor at eitemau megis ymgeiswyr i'w penodi ac achosion ymddygiad.

1.54 Ni chaniateir i Gadeiryddion Meinciau eistedd ar banelau cyfweld ar gyfer ynadon newydd na bod yn bresennol yn ystod trafodaethau am ymgeiswyr neu achosion ymddygiad.

1.55 Y tu hwnt i'r cyfyngiadau hyn, caniateir gwahodd Cadeiryddion Meinciau/Dirprwy Gadeiryddion Meinciau i gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar sail ymgynghorol, heb bleidlais, os gallant ddarparu gwybodaeth berthnasol a defnyddiol a fyddai'n golygu bod gan y Pwyllgor yr wybodaeth orau posibl i allu trafod materion penodol.

## Recriwtio aelodau i Bwyllgorau Ymgynghorol

1.56 Mae'r broses o recriwtio a dethol aelodau ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol yn dod o dan gylch gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (OCPA), ac mae'n rhaid glynu wrth yr egwyddorion a nodir yng Nghod Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus[5].

1.57 Rhaid sicrhau bod unrhyw weithgarwch recriwtio sy'n costio arian yn cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan swyddog GLITEF neu swyddog yn y Swyddfa Farnwrol sydd â chyfrifoldebau cyllidebol.

1.58 Argymhellir bod hysbysebion yn pwysleisio y byddai'r Pwyllgor yn croesawu'n arbennig geisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith ei aelodaeth, ac y dylid enwi'r grwpiau hynny wrth hysbysebu.

1.59 Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol sy'n recriwtio yng Nghymru roi sylw arbennig i ofynion eu cynlluniau iaith Gymraeg priodol.

1.60 Dylai ymgeiswyr i Bwyllgorau Ymgynghorol lenwi'r ffurflen gais ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol ar Ynadon Heddwch (**Atodiad 1B (Rhan 2)**). Dylid hefyd sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r canllawiau ar wneud cais i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol (**Atodiad 1B (Rhan 1)**).

[5] https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

**Aelodau sy'n ynadon**

1.61 Rhaid hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau sy'n ynadon i bob ynad o fewn yr ardal berthnasol.

**Aelodau nad ydynt yn ynadon**

1.62 Rhaid hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet: https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/.

1.63 Dylid e-bostio ffurflenni cais wedi'u llenwi, gydag unrhyw atodiadau i: publicappointmentsteam@justice.gsi.gov.uk.

1.64 Ar gyfer ymholiadau ynghylch hysbysebu swyddi gwag, defnyddiwch yr un cyfeiriad e-bost.

1.65 Dylai'r holl ddeunydd hyrwyddo gynnwys marc rheoleiddio'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (ar gael gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol).

1.66 Ni ddylai ymgeiswyr nad ydynt yn ynadon ddatgelu euogfarnau sydd wedi darfod yn ystod y broses gwneud cais. Os datgelir euogfarn sydd wedi darfod yn ddamweiniol, ni ddylai'r Pwyllgor Ymgynghorol na'r Swyddfa Farnwrol ei hystyried, ac ni ellir ei defnyddio fel sail i wrthod penodi unigolyn neu eu rhoi dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

## Y broses gwneud cais a dethol

### Y broses gwneud cais ar gyfer aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol

1.67 Dylid dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ymdrin â phob cais:

- rhaid trin ceisiadau'n deg, yn gyson ac yn brydlon;
- rhaid asesu ymgeiswyr ar sail teilyngdod yn unig — ni ddylid ystyried unrhyw ffactor arall;
- rhaid trin ymgeiswyr gyda chwrteisi a pharch;
- mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[6]; a
- rhaid cadw gwybodaeth a geir am unigolyn drwy'r broses ddethol yn gyfrinachol.

1.68 Dylai'r pecyn gwneud cais a gwybodaeth i ymgeiswyr gynnwys y canlynol:

- Atodiad 1A – Paramedrau Ymarferion Recriwtio Ynadon;
- Atodiad 1B (Rhan 1) – Gwneud cais i ddod yn aelod o bwyllgor ymgynghorol: canllawiau i ymgeiswyr;

[6] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

- Atodiad 1B (Rhan 2) – Ffurflen gais i ddod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch;
- Atodiad 1C (Rhan 1) - Geirda ar gyfer unigolyn sy'n gwneud cais i ddod yn aelod nad yw'n ynad o bwyllgor ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar ynadon heddwch;
- Atodiad 1C (Rhan 2) - Geirda ar gyfer unigolyn sy'n gwneud cais i ddod yn aelod nad yw'n ynad o bwyllgor ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar ynadon heddwch – canllawiau i ganolwyr;
- Atodiad 1D – Holiadur monitro amrywiaeth a data; ac
- Atodiad 1G – Datganiad ar gyfer cofrestr buddiannau aelodau Pwyllgor Ymgynghorol.

1.69 Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen safonol yn **Atodiad 1B.**

1.70 Rhaid cael geirda ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn ynadon gan ddefnyddio'r ffurflen yn **Atodiad 1C.**

1.71 Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r holiadur monitro amrywiaeth yn **Atodiad 1D**.

1.72 Rhaid asesu pob ymgeisydd sy'n gwneud cais i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol ar sail teilyngdod yn unig, yn erbyn y meini prawf a nodir yn **Atodiad 1C.** Ni ddylid ystyried unrhyw ffactorau eraill.

**Panelau**

1.73 Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol sefydlu panel penodi sy'n cynnwys y canlynol:

1.73.1 Ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio:

- Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol (neu'r Dirprwy Gadeirydd a enwebwyd) i gadeirio'r panel;
- un aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol; ac
- un aelod annibynnol o'r panel, sef aelod o Bwyllgor Ymgynghorol gwahanol.

1.73.2 Pwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad

- un aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol;
- un aelod annibynnol o'r panel, sef aelod o Bwyllgor Ymgynghorol gwahanol; ac
- Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.74 Rhaid i o leiaf un unigolyn ar bob panel fod yn aelod nad yw'n ynad.

1.75 Fel arfer, ni chaiff ymgeiswyr eu had-dalu am gostau teithio i gyfweliadau ac yn ôl, nac am unrhyw dreuliau eraill a gyfyd yn ystod y broses gwneud cais.

Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir yn lleol i ad-dalu costau i ymgeiswyr unigol gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan uwch swyddog priodol yn GLITEF.

**Aelodau Annibynnol o Banelau**

1.76 Rhaid i'r panel dethol allu asesu ymgeiswyr yn ddiduedd yn erbyn y meini prawf dethol a chadw at yr egwyddorion sy'n ymwneud â thegwch, bod yn agored a phenodi ar sail teilyngdod. Yn unol â Chod Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus[7], rhaid i'r asesiad hwn gynnwys persbectif allanol, a geir fel arfer drwy gael un aelod o'r panel sy'n annibynnol ar ardal y Pwyllgor Ymgynghorol sy'n penodi.

1.77 Rôl yr aelod annibynnol o'r panel yw darparu her allanol, bod yn aelod effeithiol o'r panel a chymryd rhan lawn yn y broses ddethol gan gynnwys bod yn aelod o'r panel cyfweld a chymryd rhan yn y penderfyniad terfynol ar yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi.

1.78 Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wedi cytuno, er mwyn cymesuredd, y gellir bodloni'r gofyniad bod rhaid cael aelod annibynnol ar y panel wrth benodi unigolion i Bwyllgorau Ymgynghorol drwy gael aelod o Bwyllgor Ymgynghorol arall i eistedd ar y panel ar gyfer pob penodiad.

1.79 Gall yr aelod annibynnol fod yn ynad neu'n aelod nad yw'n ynad o Bwyllgor Ymgynghorol arall i sicrhau bod yna o leiaf un aelod nad yw'n ynad ar y panel, gan dynnu sylw at bwynt 1.77 uchod ar gyfer pwyllgorau ymddygiad.

1.80 Bydd GLITEF yn talu costau teithio a chynhaliaeth rhesymol i'r aelod panel annibynnol, ar yr amod eu bod wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw gan uwch swyddog GLITEF perthnasol.

**Ymgeiswyr ag anableddau**

1.81 Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi ymgeiswyr i fynychu cyfweliadau.

1.82 Ni ddylid gofyn cwestiynau i ymgeiswyr am eu hanabledd na sut y gallai effeithio ar eu gallu i wasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau am deithio i gyfarfodydd/mynediad i adeiladau. Os bydd ymgeisydd yn ceisio trafod pynciau o'r fath yn ystod cyfweliad, dylid dweud wrthynt nad yw'n briodol gwneud hynny, a'u sicrhau mai pwrpas y cyfweliad yw eu hasesu ar sail teilyngdod yn unig.

**Cyfweliadau**

1.83 Nid oes fformat penodol ar gyfer y cwestiynau y dylid gofyn mewn cyfweliadau. Fel canllaw cyffredinol, dylai panelau ofyn cwestiynau agored sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth yn erbyn y meini prawf a nodir yn Atodiad 1C. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy drafod sgiliau a phrofiad ymgeiswyr a gafwyd o gyflogaeth neu waith gwirfoddol gan gynnwys,

[7] https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

lle bo hynny'n berthnasol, eu rôl fel ynad.

1.84 Gall aelodau'r panel ysgrifennu eu nodiadau eu hunain yn ystod y cyfweliad, pan na fyddant yn siarad gyda'r ymgeisydd.

1.85 Dylai pob aelod o'r panel wneud nodyn o'u hasesiad eu hunain cyn i unrhyw un fynegi eu safbwyntiau am yr ymgeisydd. Yna, dylai cadeirydd y panel ofyn i bob aelod am eu safbwyntiau, cyn iddynt fynegi eu barn eu hunain.

1.86 Rhaid i Gadeirydd y panel lenwi'r ffurflen asesu (**Atodiad 1E**) ar ôl i bob ymgeisydd gael eu cyfweld a llofnodi'r datganiad cadarnhau (**Atodiad 1F**). Dylid atodi'r datganiadau llofnodedig i'r ffurflenni asesu.

1.87 Rhaid dinistrio pob nodyn unigol ar ddiwedd y sesiwn gyfweld.

1.88 Er dylai ymgeiswyr adael y cyfweliad yn teimlo eu bod wedi'u profi'n deg, dylent deimlo fel bod hyn wedi'i wneud gyda chwrteisi a phroffesiynoldeb.

**Penodiadau**

1.89 Rhaid cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol (sy'n gweithredu ar ran yr Arglwydd Ganghellor). Ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon, rhaid i bob argymhelliad gael ei wneud drwy system Avature ATS.

1.90 Rhaid atodi'r dogfennau canlynol:

- rhestr o'r ymgeisydd/ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer eu penodi;
- copi o **Atodiadau 1B – 1G** wedi'u llenwi ar gyfer pob ymgeisydd;
- cadarnhad o gliriadau sylfaenol gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer aelodau nad ydynt yn ynadon;
- copi o unrhyw ddeunydd recriwtio a manylion sut a ble y cafodd swyddi eu hysbysebu; a
- rhestr o unrhyw ymgeiswyr na chawsant eu hargymell ar gyfer penodi.

1.91 Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn prosesu'r penodiadau ac yna'n hysbysu'r ymgeiswyr llwyddiannus a'r Pwyllgor Ymgynghorol.

1.92 Bydd rhestr o benodiadau newydd hefyd yn cael ei chyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd manylion unrhyw weithgarwch gwleidyddol arwyddocaol a ddatganwyd gan ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi pan gyhoeddir y penodiad.

1.93 Os bydd gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol unrhyw bryderon ynghylch ymgeisydd a argymhellwyd ar gyfer penodi, bydd Pennaeth Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cysylltu â'r Ysgrifennydd i drafod y mater.

**Cliriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

1.94 Bydd gan bob Pwyllgor Ymgynghorol gyd-lofnodwr DBS penodedig ar gyfer

aelodau newydd nad ydynt yn ynadon.  Nid oes angen cyd-lofnodwr DBS ar gyfer penodiadau ynadon oherwydd bod proses gwiriadau DBS wedi'i digideiddio. Bydd swyddog GLITEF penodol yn gyfrifol am wirio dogfennau adnabod pob pwyllgor lle bo angen.

1.95 Os oes angen arweiniad pellach, mae'r DBS yn cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar-lein, gan gynnwys i ymgeiswyr. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar y wefan ganlynol: www.gov.uk/disclosure-barring-service-check.

1.96 Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol ganiatáu o leiaf **deg diwrnod gwaith** ar gyfer cwblhau gwiriadau DBS.

1.97 Ni fydd cyd-lofnodwyr DBS Pwyllgorau Ymgynghorol yn cael copïau o dystysgrifau cofnodion datgelu gan y DBS. Unwaith y bydd ymgeiswyr wedi cael tystysgrif DBS, rhaid iddynt roi'r copi gwreiddiol neu gopi wedi'i sganio i'r Ysgrifennydd i'w gadarnhau.

**Adolygu penderfyniad i beidio ag argymell penodi**

1.98 Mae gan ymgeiswyr na chafodd eu hargymell ar gyfer eu penodi yn dilyn cyfweliad gan nad oeddent yn bodloni'r safon ofynnol hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os yw'r canlynol yn berthnasol:

- ni ddilynwyd y broses ddethol yn iawn; neu
- mi wnaeth aelod o'r panel cyfweld ymddwyn yn amhriodol.

1.99 Rhaid i'r ymgeisydd nodi sut y cawsant eu rhoi dan anfantais ar y naill neu'r llall o'r seiliau uchod er mwyn i'w hapêl gael ei hystyried. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod wedi gofyn am adborth a'i ystyried cyn gofyn am adolygiad o ganlyniad eu cais.

1.100 Dylid gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r broses adolygu hon a dylid rhoi terfyn amser o **bymtheg diwrnod gwaith** iddynt o'r dyddiad y cafwyd adborth i gyflwyno eu cais am adolygiad a rhaid iddo gynnwys manylion eu rhesymau dros ofyn am adolygiad. Ni ddylid derbyn ceisiadau am adolygiad a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

1.101 Nid oes unrhyw hawl i ofyn am adolygiad o ganlyniadau'r broses sifftio cais pan fydd yr ymgeisydd wedi'u gwrthod ar sail cymhwysedd, neu ar gyfer ymgeiswyr a gyrhaeddodd y safon ofynnol yn y cyfweliad, ond na chawsant eu hargymell i'w penodi oherwydd bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ymgeiswyr eraill a wnaeth sgorio'n uwch. Dylai cyfathrebiadau ag ymgeiswyr o'r fath nodi'n glir bod penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol i beidio ag argymell yn derfynol.

1.102 Y Pwyllgor Ymgynghorol sy'n gyfrifol am adolygu penderfyniadau yn y lle cyntaf a dylai wneud hynny o fewn **ugain diwrnod gwaith** iddo gael cais am adolygiad.

1.103 Lle nad yw'n ymarferol i'r Pwyllgor Ymgynghorol llawn adolygu'r penderfyniad, dylid cynnull cworwm adolygu ar wahân o dri aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol

i wneud hynny. Dylai’r tri aelod hyn fod yn gyfuniad o aelodau sy’n ynadon ac aelodau nad ydynt yn ynadon.

1.104 Lle bo hynny’n berthnasol, mae’n bwysig ceisio atgofion aelodau’r panel a gymerodd ran yn y cyfweliad a’u hystyried fel rhan o’r broses adolygu. Efallai y bydd angen y wybodaeth hon hefyd os caiff y mater ei gyfeirio wedyn at yr Uwch Farnwr Llywyddol i’w ystyried.

1.105 Gall y Pwyllgor Ymgynghorol neu'r cworwm adolygu benderfynu cadarnhau'r penderfyniad. Fel arall, gallant benderfynu y dylai'r ymgeisydd gael ei ail-gyfweld gan banel gwahanol.

1.106 Dylid hysbysu ymgeiswyr o fewn **pum diwrnod gwaith** o ganlyniad yr adolygiad a dylid rhoi rhesymau iddynt dros y penderfyniad a wnaed. Rhaid eu hysbysu hefyd, os na fyddant yn derbyn y penderfyniad, y gallant ofyn am adolygiad pellach gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

**Cais am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol / Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol**

1.107 Gall ymgeisydd ofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Ymgynghorol a chaiff ei ystyried gan naill ai’r Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Dim ond os oes tystiolaeth glir bod y broses ddethol wedi’i chamddehongli neu fod aelod o’r panel cyfweld wedi ymddwyn yn amhriodol y bydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn ystyried cadarnhau cais am adolygiad.

1.108 Os bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael cais am adolygiad o’i benderfyniad, dylid ei anfon ymlaen, gyda’r holl bapurau perthnasol, i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **pum diwrnod gwaith.**

1.109 Y targed ar gyfer cwblhau adolygiad ar gyfer ymgeiswyr gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yw 35 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael yr holl bapurau perthnasol. Fodd bynnag, gall oedi ddigwydd o bryd i’w gilydd oherwydd galwadau ar amser yr Uwch Farnwr Llywyddol.

1.110 Mae penderfyniad yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn derfynol.

1.111 Gall yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol benderfynu cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol / cworwm adolygu, neu gall benderfynu bod rhaid ail-gyfweld yr ymgeisydd. Dylai Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol hysbysu ymgeiswyr yn ysgrifenedig o ganlyniad eu hadolygiad **o fewn 10 diwrnod gwaith** i benderfyniad gael ei wneud gan yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol. Anfonir copi o'r llythyr at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.112 Os na fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol neu’r Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Ymgynghorol, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn rhoi crynodeb i’r Ysgrifennydd o unrhyw resymau a roddwyd.

### Rôl yr Ysgrifennydd mewn perthynas â chyfweliadau

1.113 Ni ddylai'r Ysgrifennydd eistedd ar banelau cyfweld ar gyfer pwyllgorau recriwtio, er gallant arsylwi cyfweliadau trwy drefniant ymlaen llaw. Fodd bynnag, dylai fod Ysgrifennydd neu Ddirprwy enwebedig ar gael bob amser i gynghori panelau cyfweld ar unrhyw faterion gweinyddol neu bolisi sy'n ymwneud â'r broses ddethol. Bydd yr Ysgrifennydd yn rhan o'r panel cyfweld ar gyfer pwyllgorau ymddygiad.

1.114 Dylai Ysgrifenyddion hefyd wirio ansawdd sampl o ffurflenni asesu wedi'u llenwi a thrafod unrhyw faterion neu bryderon gyda Chadeirydd y panel.

### Addasiadau rhesymol ar gyfer aelodau panel nad ydynt yn ynadon

1.115 Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr yr argymhellir eu penodi yn aelodau nad ydynt yn ynad. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y llythyr penodi yn gofyn a oes angen addasiadau rhesymol ar yr ymgeisydd i'w helpu i gyflawni dyletswyddau aelod o'r pwyllgor, er enghraifft offer arbenigol neu addasiadau i adeiladau.

1.116 Os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am addasiadau rhesymol, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod sut bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn lleol i asesu ymarferoldeb darparu'r addasiadau hynny.

1.117 Rhaid i'r rhagdybiaeth bob amser fod o blaid dod o hyd i ffyrdd i allu penodi'r ymgeisydd sydd ag anabledd. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol fod mor hyblyg â phosibl wrth ystyried sut y gellid cyflawni hynny.

### Penodi heb argymhelliad gan Bwyllgor Ymgynghorol

1.118 Mewn amgylchiadau eithriadol gall yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus, wneud penodiad heb ofyn am argymhelliad gan banel.

## Aseswyr Penodiadau Cyhoeddus

1.119 O bryd i'w gilydd gall y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus gynnal archwiliad ar benodiadau aelodau Pwyllgor Ymgynghorol neu gynnal hapwiriadau ar brosesau recriwtio a dethol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.

1.120 Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn hwyluso'r broses hon ac yn rhoi cyngor i'r Pwyllgorau yn ôl yr angen.

## Cadw cofnodion

1.121 Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gadw pob dogfen sy'n ymwneud â'r broses recriwtio a dethol ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus.

1.122 Rhaid dinistrio dogfennaeth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn ddiogel ar ôl dwy flynedd o ddyddiad derbyn y cais.

1.123 Rhaid cadw gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr llwyddiannus tra byddant yn aelodau, a'i dinistrio'n ddiogel chwe blynedd ar ôl iddynt adael y rôl.

## Hyfforddiant

1.124 Rhaid i aelodau newydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol Recriwtio, gan gynnwys yr Arglwydd Raglaw neu Gadeirydd arall y Pwyllgor Ymgynghorol, gwblhau'r[8] hyfforddiant gorfodol cyn cymryd rhan yn y broses o ddethol ymgeiswyr ar gyfer yr ynadaeth. Rhaid i aelodau newydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad gwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol cyn cymryd rhan mewn materion ymddygiad.

1.125 Rhaid i aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio nad ydynt yn ynadon teulu:

- gwblhau hyfforddiant ymgyfarwyddo â gwaith teulu; ac
- arsylwi o leiaf un sesiwn o'r llys teulu.

1.126 Rhaid i aelodau nad ydynt yn ynadon gael o leiaf ddau arsylwad wedi'u tiwtora yn y llys ar ôl eu penodi. Ni fydd y rhai nad ydynt yn ynadon yn gallu mynychu hyfforddiant ynadon fel y cyfryw, er gall rhai elfennau fod yn agored iddynt, trwy wahoddiad Ysgrifenyddion os bernir ei fod yn ddefnyddiol i ddarparu cyd-destun ehangach a dealltwriaeth o rôl ynad. Mae'n amhriodol i aelodau nad ydynt yn ynadon ddod yn aelodau cyswllt o Gymdeithas yr Ynadon.

1.127 Bydd GLITEF yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgorau Ymgynghorol am yr hyfforddiant sydd ar gael.

1.128 Mae unrhyw aelod o Bwyllgor Ymgynghorol sy'n gwrthod mynychu hyfforddiant yn agored i gael ei ddiswyddo o'i rôl.

1.129 Dylai Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol, Dirprwy Gadeiryddion, Ysgrifenyddion a Dirprwy Ysgrifenyddion fynychu'r hyfforddiant sy'n ofynnol o aelodau eu Pwyllgorau Ymgynghorol, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod.

## Ymddygiad a chwynion

1.130 Er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yng ngwaith Pwyllgorau Ymgynghorol, rhaid i Gadeiryddion, aelodau ac Ysgrifenyddion lynu wrth y saith egwyddor bywyd cyhoeddus: Anhunanoldeb; Uniondeb; Gwrthrychedd; Atebolrwydd; Bod yn Agored; Gonestrwydd; Arweinyddiaeth. Am ragor o wybodaeth gweler: https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life.

---

[8] Mae GLITEF yn darparu hyfforddiant i aelodau newydd y Pwyllgorau Ymgynghorol o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gyda'r Swyddfa Farnwrol. Y Swyddfa Farnwrol yw perchnogion cynnwys y deunydd hyfforddi.

1.131 Dylid delio â chwynion a wneir yn erbyn Cadeiryddion, aelodau neu Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol yn unol â'r canllawiau yn **Atodiad 1K.**

## Dwyn materion i sylw'r Ysgrifennydd

1.132 Rhaid i aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol am:

- unrhyw achos troseddol neu sifil yn eu herbyn, neu y maent yn ymwneud ag o mewn unrhyw swyddogaeth, a chanlyniad yr achos;
- os byddant yn mynd yn fethdalwr neu'n wynebu unrhyw anawsterau ariannol eraill neu os bydd cwmni maent yn gyfarwyddwr ohono yn cael ei ddiddymu;
- os yw priod, partner sifil, partner, aelod o'r teulu neu berthynas agos yn gysylltiedig ag unrhyw achos troseddol, a'r canlyniad; neu
- os ydynt yn bwriadu derbyn swydd neu safle a fyddai wedi golygu eu bod yn anghymwys i fod yn aelod o'r Pwyllgor.

## Cofrestr buddiannau

1.133 Rhaid i aelodau newydd gwblhau datganiad pan gânt eu penodi **(Atodiad 1G)** i alluogi'r Pwyllgor Ymgynghorol ac unrhyw is-bwyllgorau gynnal cofrestr o fuddiannau **(Atodiad 1H).**

1.134 Dylai Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Pwyllgorau Ymgynghorol atgoffa aelodau o leiaf unwaith y flwyddyn am yr angen i gadw'r gofrestr yn gyfredol. Rhaid bod y gofrestr ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei gweld.

1.135 Rhaid i'r Ysgrifennydd roi gwybod i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol os bydd aelod yn ymgymryd â gwaith neu fuddiant personol a allai achosi gwrthdaro buddiannau posibl.

## Treuliau

1.136 Nid oes gan unigolion sy'n gwneud cais i fod yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol hawl i gael ad-daliad am y treuliau a gyfyd ganddynt wrth iddynt wneud y cais.

1.137 Gall Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol ac aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd (busnes, cyfweliadau neu banelau ymchwilio) Pwyllgor Ymgynghorol, neu sy'n mynychu hyfforddiant gorfodol, hawlio'r treuliau perthnasol gan GLITEF.

1.138 Dylai Ysgrifenyddion sicrhau bod gwybodaeth am dreuliau a'r broses hawlio ar gael i Gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol.

## Achosion Cyfreithiol

1.139 Oni bai eu bod yn gweithredu'n anonest, yn ddrwgfwriadol neu'n esgeulus, ni fydd Cadeiryddion Pwyllgorau Ymgynghorol, aelodau, Ysgrifenyddion,

Dirprwy Ysgrifenyddion na staff cymorth gweinyddol GLITEF na'r Swyddfa Farnwrol yn atebol yn bersonol ac ni fydd disgwyl iddynt ysgwyddo'r gost o ymateb i achosion cyfreithiol neu mewn perthynas â phethau a wnaed neu na wnaed ganddynt wrth iddynt arfer eu dyletswyddau.

1.140 Os bydd Pwyllgor Ymgynghorol yn cael ei fygwth â, neu'n dod yn ymwybodol o achos cyfreithiol a gychwynnwyd gan ymgeisydd neu ynad sy'n gwasanaethu, rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ar unwaith.

## Perthnasau Pwyllgorau Ymgynghorol â GLITEF, Cadeiryddion Meinciau a Chadeiryddion Panelau Teulu

1.141 GLITEF sy'n darparu'r Ysgrifennydd a'r staff cymorth ar gyfer Pwyllgorau Ymgynghorol. Dylid ceisio barn gweinyddiaeth GLITEF a Chadeiryddion Meinciau drwy eu gwahodd i'r rhan berthnasol o gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.142 Ac eithrio'r Ysgrifennydd mewn achosion priodol – yn enwedig achosion ymddygiad – ni ddylai staff gweinyddol GLITEF gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau eraill a gynhelir gan y Pwyllgor Ymgynghorol, gan gynnwys trafodaethau ar geisiadau unigol neu ymchwiliadau gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

1.143 Mae'n bwysig sicrhau bod yna berthynas waith adeiladol rhwng Pwyllgorau Ymgynghorol a Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion Meinciau a ddylai fod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch anghenion y fainc. Dylai'r trafodaethau hyn gael eu hwyluso gan Ysgrifennydd neu Ddirprwy Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol. Er enghraifft, Cadeiryddion Meinciau sy'n gyfrifol am reoli eisteddiadau ac am ganiatáu absenoldeb â chaniatâd am hyd at 12 mis mewn unrhyw gyfnod o 24 mis. Gallant gyfeirio achosion at y Pwyllgor Ymgynghorol lle bo angen, a rhaid iddynt ddarparu adroddiad blynyddol neu adroddiad hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Ymgynghorol.

1.144 Wrth gytuno ar gynlluniau recriwtio, bydd angen i Bwyllgorau Ymgynghorol ymgynghori, dan arweiniad yr Ysgrifenyddion neu'r Dirprwy Ysgrifenyddion, â Chadeiryddion Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu, i ystyried anghenion y panel teulu a phenderfynu a oes angen recriwtio ymgeiswyr yn uniongyrchol i'r panel teulu.